



Adroddiad Blynyddol  
Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y  
PARC

MAWRTH 2011 – CHWEFROR 2012

**SWYDDOGAETH STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL (IMB)**

Mae'r Ddeddf Carchardai 1952 a'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999 yn mynnu fod pob carchar a chanolfan remánd annibynnol yn cael eu monitro gan Fwrdd Annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o aelodau o'r gymuned ble mae'r carchar neu'r ganolfan wedi'i lleoli.

Dyletswyddau penodol y Bwrdd yw:

- (1) Bodloni ei hun am ymdriniaeth gyfiawn a thrugarog y rhai a gedwir yn gaeth yn y carchar, ac amrywiaeth a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- (2) Rhoi gwybod ar unwaith i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel mae'n gweld yn dda, unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol i ba raddau mae'r carchar wedi cwrdd â'r safonau a'r gofynion a osodir arno a pha effaith a gafodd ar y rhai sydd yn y ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i wneud ei ddyletswyddau'n effeithiol mae gan yr aelodau'r hawl i gael mynediad i bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd gofnodion y carchar.

## Section 2

---

### **CRYNODEB O'R CYNNWYS**

Adran 1	Swyddogaeth Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol
Adran 2	Crynodeb o'r Cynnwys
Adran 3	Disgrifiad o'r carchar
Adran 4	Crynodeb Gweithredol
Adran 5	Meysydd y mae'n rhwym i'r Bwrdd roi adroddiad arnynt:
Adran 5.1	Amrywiaeth
Adran 5.1.1	Lleiafrifoedd Ethnig ym Mhoblogaeth Carcharorion
Adran 5.1.2	Carcharorion sy'n Wladolion Tramor
Adran 5.2	Dysgu a Sgiliau (Addysg)
Adran 5.3	Dysgu a Sgiliau (Diwydiannau)
Adran 5.4	Gofal Iechyd
Adran 5.5	Uned Gwahanu
Adran 5.5.1	Deddf Rheoli Troseddwyr 2007
Adran 5.5.2	Dyfarniadau
Adran 5.6	Uned Pobl Ifanc (YPU)
Adran 5.6.1	Gofal Iechyd (YPU)
Adran 5.6.2	Gwahanu (YPU)
Adran 5.6.3	Staffio (YPU)
Adran 5.6.4	Llety (YPU)
Adran 5.7	Gwarchodaeth Ddiogelach
Adran 5.7.1	Gostwng Trais
Adran 6	Meysydd eraill mae'r Bwrdd yn dymuno adrodd arnynt:
Adran 6.1	Strategaeth Cyffuriau
Adran 6.2	Ymweliadau ac Ailsefydlu
Adran 6.3	Cwestau
Adran 6.4	Llety
Adran 7	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol:
Adran 7.1	Dyletswyddau Statudol, Cyffredinol a Phenodol
Adran 7.2	Rota Ymweliadau
Adran 7.3	Hyfforddi
Adran 7.4	Cyfarfodydd Mewnol ac Allanol
Adran 7.5	Ceisiadau a Chrynodeb o Geisiadau
Adran 7.6	Geirfa Byrfoddau

## DISGRIFIAD O'R CARCHAR

Mae Carchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc yn sefydliad lleol Categori B ac yn sefydliad Troseddwy'r Ifanc gydag Uned Fach Pobl Ifanc a chytunwyd ei fod yn:-

- i) Llety Gwaelodlin Ardystiedig Normal - 1170
- ii) Cynhwysedd gweithredol cyfredol – 1474
- iii) Mwyafswm cynhwysedd – 1670

Agorwyd Carchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc ar 17 Tachwedd 1997, a dyma'r unig garchar preifat yng Nghymru. Caiff ei reoli gan Wasanaethau Gofal a Chyfiawnder G4S ar ran Gwasanaethau Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol. Cafodd llawer o staff y carchar eu recriwtio o'r ardal leol.

Yn gyffredin â'r holl sefydliadau dan gytundeb, mae Rheolwr gan Carchar EM a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc. Mae'r Rheolwr yn rheoli'r cytundeb 25 mlynedd rhwng y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac mae'n uniongyrchol gyfrifol i Gyfarwyddwr Rheoli Troseddwy'r (Cymru).

Asiantaeth sy'n cyflenwi gwasanaethau:

- Cynnal a chadw – Gwasanaethau Cyfunol G4S
- Gwasanaethau Lyfrgell – Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr

Sefydliadau Gwirfoddol:

- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Cynllun Gwobr Dug Caeredin
- Gwobrwyon Ymddiriedolaeth Koestler – Celfyddydau gan Droseddwy'r
- Undeb y Mamau – Cymorth gyda chyfleusterau meithrinfa
- Samariaid – Yn cynnwys hyfforddiant i Wrandawyr
- Gŵyl Lenyddol y Gelli Gandryll

Ymhlith yr Ymwelwyr Adnabyddus i'r sefydliad yn ystod y flwyddyn a gofnodir roedd:

- Billy Bragg (sefydlydd y Guitar Indoor)
- Simon Weston OBE
- Chwaraewyr o Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
- Carwyn Jones, Prif Weinidog, AC Pen-y-bont ar Ogwr
- Siaradwyr ar Ymweliad â'r Gelli Gandryll yn y Parc
- David Shaw, Aelod Cyngor Cenedlaethol y Bwrdd Monitro Annibynnol
- Francis Done, Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**(a) Y materion penodol a godir yn yr adroddiad ble mae'r Bwrdd yn chwilio am ymateb yw:**

**(i) Materion polisi, y ceisir ateb gan y Gweinidog:**

Roedd y Bwrdd yn falch o glywed fod Carchar EM y Parc wedi bod yn llwyddiannus yn ennill Statws Lefel 4 ar ddiwedd y cyfnod adrodd am 2011/2012. Fodd bynnag rydym yn ymwybodol fod rhai rhwystredigaethau yn bodoli mewn perthynas ag adlewyrchiad cywir o ddyddiad perfformio ar draws y sefydliad oherwydd y gwahanol boblogaethau. Enghraifft glir o hyn yw lefel yr ymladdfeydd ac ymosod yn yr Uned Pobl Ifanc sy'n cyfrif am 45% o gyfanswm ffigyrau y sefydliad ond mewn gwirionedd sy'n cael eu cyflawni gan 5% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cyflwyno darlun anghywir o lefelau trais yng Ngharchar EM y Parc ac mae'r Bwrdd yn awyddus bod hyn yn cael ei gywiro gan y peirianwaith riportio.

Ar waethaf apwyntio Crwner newydd, mae nifer o gwestau yn aros i'w cynnal o hyd, un yn mynd yn ôl i 2009, ond mae'r niferoedd yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol. Rydym yn annog y Gweinidog i weithredu i ddatrys y mater hwn fel y gall teuluoedd y carcharorion gael diwedd glo.

**(ii) Materion gweithredol y mae'r Bwrdd yn chwilio am ateb wedi'i baratoi neu ei gomisiynu gan Gyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr Cymru:**

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y problemau o werthuso a chofnodi'r presenoldeb a'r llwyddiannau mewn Dysgu a Sgiliau mewn poblogaeth carchar sy'n newid yn gyson ond maent yn eu hannog i ddarparu cofnodion o'r gwaith hwn.

**(b) Materion eraill a godwyd yn yr adroddiad nad oes angen ymateb yw:**

**(i) Materion sy'n achosi pryder i'r Bwrdd:**

Nid yw carcharorion a staff yr adain bob amser yn ymwybodol o apwyntiadau meddygol a deintyddol a rhaid gosod gwell system gyfathrebu yn ei lle i hysbysu carcharorion am y rhain.

Yn yr Uned Bobl Ifanc mae'r Bwrdd yn parhau i fod â phryder am wahanu pobl ifanc gan eu bod yn cael eu rhoi y tu ôl i ddrysau eu hystafell.

**(ii) Enghreifftiau o'r arfer gorau:**

Unwaith eto enillodd Carchar EM y Parc ganlyniadau eithriadol yn y Gwobrwyon Koestler – y gorau eto ac mae hyn yn adlewyrchiad cywir o'r gwaith a gyflawnwyd yn yr Adran Celfyddydau Creadigol

Mae Adrannau Garddwriaethol a Hwsmonaeth Anifeiliaid yn mynd o nerth i nerth ac mae'n bleser gweld yr arddangosfeydd blodau lliwgar ar draws y sefydliad. Mae'r Adran yn cynnwys tîm ymroddgar o staff a charcharorion sy'n mwynhau profiad uniongyrchol o hwsmona anifeiliaid, gan roi pwrpas i fywyd i'r carcharorion.

Mae Cefnogi Teuluoedd y Parc yn brosiect arloesol ac yn bodoli er mwyn carcharorion sy'n benderfynol o ddiwygio eu hagwedd tuag at fywyd, cael sgiliau i fyw yn y gymuned ac uwchlaw pob dim i gynnal eu cysylltiadau teuluol. Caiff ei drefnu'n llwyddiannus gan dîm ymroddgar o staff a dylid cymeradwyo Carchar EM y Parc am eu gwaith. Maent hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i sicrhau cymorth gan y loteri a fydd yn rhoi iddynt £4m + dros y bedair blynedd nesaf i ddatblygu mentrau newydd.

**(c) Barn Gyffredinol:**

Mae Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn garchar sy'n cael ei redeg yn dda ac yn ddiogel, sy'n rhoi cyfle i garcharorion a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau ac ennill cymwysterau fydd yn eu cynorthwyo unwaith y dychwelant i fywyd normal.

Mae llawer iawn o waith da yn digwydd yng Ngharchar EM y Parc ond fel yr adroddwyd yn y blynyddoedd cynt nid yw Carchar EM y Parc bob amser yn dathlu ei lwyddiannau. Mae angen mwy o ymdrech i roi gwybod i'r Bwrdd a'r cymunedau lleol am y prosiectau ardderchog sy'n digwydd a'r effaith a gaiff hyn ar boblogaeth y carchar yng Ngharchar EM y Parc.

## MEYSYDD BLE MAE'N DDYLETSWYDD AR Y BWRDD I RIPORTIO

### 5.1 Tîm Gweithredu Cydraddoldeb

Mae'r tîm hwn yn cynnwys Rheolwr Cydraddoldeb, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cydlynnydd Carcharor sy'n Wladolion Tramor a'r Rheolwr Gweithredol, sy'n gyfrifol am yr Uned Pobl Hŷn.

#### 5.1.1. Monitro Cydraddoldeb a Phroffil

Mae'r Parc yn garchar o amrywiaeth diwylliannol gyda phoblogaeth carcharorion sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) o 11.7%. Mae hyn yn gynnydd o dros 2% ers yr adroddiad diwethaf. Nid yw hyn yn adlewyrchu poblogaeth yr ardal leol nac o broffil y staff, sy'n aros ar 2.7% o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME). Mae'r angen am addysg mewn amrywiaeth diwylliannol felly yn bwysig.

Mae'r ffigyrau'r gwahanol grwpiau ethnig oddi fewn i boblogaeth gyfartalog o 1448 fel a ganlyn (ffigyrau 2010/2011 mewn cromfachau).

Asiaidd	46	(32)
Du	76	(64)
Cymysg	25	(27)
Tsieineaidd neu grwpiau ethnig eraill	8	(7)
Gwyn	1249	(1197)
Gwyddelig Gwyn neu Gwyn Eraill	14	(18)
Dim Datganiad	23	(43)

Mae 4.4% o boblogaeth gyfredol y carchar yn garcharorion sy'n Wladolion Tramor, sy'n cynnwys 37.8% o'r boblogaeth carcharorion sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn nhermau rhifiadol mae 63 o garcharorion sy'n Wladolion Tramor ac o'r rhain mae pump wedi gorffen eu dedfrydau. Mae un carcharor o India yn barod i ddychwelyd adref. Mae'r pedwar arall o Irac, Pacistan, Somalia a Jamaica yn aros yng ngharchar.

Mae 2% o boblogaeth y carchar wedi'u rhestru fel bod yn hoyw neu'n ddeurywiol. Sefydlwyd cysylltiadau gwerthfawr gyda sawl sefydliad allanol yn 2011, er enghraifft Ymddiriedolaeth Terence Higgins a gyfrannodd addysg iechyd rhyw am ddim. Rhoddwyd mewnbyn hefyd gan Art Angel, a weithiodd am 2 flynedd yng Ngharchar EM Wandsworth gyda staff a charcharorion Lesbiaidd, Hoyw ,Deurywiol a Thrawsrywiol.

#### 5.1.2 Archwiliad Allanol a Grwpiau Partneriaeth

Sefydlwyd Grŵp i fonitro materion perfformiad ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth fel 'ffrind beirniadol'. Aelodaeth gyfredol: Canolfan Rhagoriaeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Cymru, Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Cyngor Cydraddoldeb Cymoedd Rhanbarthol, Tai Pawb, Mencap Cymru a Gofal.

### 5.2 Dysgu a Sgiliau (Addysg)

Wrth gyrraedd gofynnir i'r carcharorion gwblhau asesiad sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae darpariaeth ar gyfer pob lefel ac mae pob un yn cael eu cynghori a'u hannog yn gryf i gymryd rhan.

- ***Mae'r Bwrdd yn cydnabod y problemau o werthuso a chofnodi presenoldeb a chyrrhaeddiad mewn poblogaeth carchar sy'n newid yn gyson ond mae'n eu hannog i ddarparu cofnodion o'r gwaith hwn.***

Gyda'r nod o ostwng aildroseddu drwy wella cyfleodd Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg y carcharor, datblygodd y Parc ddull newydd yn ystod y flwyddyn, gan ddechrau gydag asesiad o anghenion uniongyrchol ailsefydlu'r troseddwr a'i amcanion hirdymor.

Cynigiodd Carchar EM y Parc y nifer fwyaf o gynigion (230) o unrhyw sefydliad i Gystadleuaeth Koestler eleni. Am y tro cyntaf enillodd Carchar EM y Parc y nifer fwyaf o wobrwyon (74), gydag enillion o dros £1000.

Cyflwynwyd Gwobr Koestler arbennig i'r Cyfarwyddwr yn yr arddangosfa flynyddol yn y Royal Festival Hall. Cafodd 30 darn o waith celf 2D yn y gymuned hefyd eu dangos yn gyhoeddus ym Mwyty Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae llawer o garcharorion yn dilyn ac yn ennill graddau TGAU mewn Celf a Dylunio ac mae eu gwaith wedi'i ddangos drwy'r carchar.

- ***Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r brwdfrydedd a ddangoswyd, y safon uchel a gyrhaeddwyd drwy wneud Cystadleuaeth Koestler yn gyfrwng ysgogol ardderchog i bob oed a'r cyfle i gael cydnabyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol.***

Bu rhagor o weithdai mewn miwsig, rapio, offerynnau a chanu, drama, sgiliau syrcau, ysgrifennu creadigol, dylunio graffig a llawer mwy. Galluogodd cyllido gan Gelfyddydau Cymunedol y Cwm a'r Fro i gerddorion proffesiynol o'r gymuned i weithio gyda grŵp o bob oedran. Cafwyd prosiect "Ysgrifennu am Fywyd" gydag oedolion, troseddwy'r ifanc, pobl ifanc a charcharorion yn yr uned i garcharorion oedd yn agored i niwed ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i Lenyddiaeth yng Nghymru.

- ***Gwnaeth datblygiad parhaol y gwaith yn yr Adran Celfyddydau Creadigol ac ymdrechion ysbrydoledig y staff i ysgogi carcharorion o bob oed a gallu argraff fawr ar y Bwrdd.***
- ***Mae'r Bwrdd yn annog yr Adran i ddarparu bwletinâu rheolaidd a chynhwysfawr yn hysbysebu a chofnodi eu llwyddiannau, prosiectau a digwyddiadau niferus.***

Mae'r prosiectau newydd a wneir gan yr Adran Addysg Gorfforol yn cynnwys: Sesiynau Hyfforddi gyda gwirfoddolwr sy'n chwaraewr rygbi rhyngwladol; a gweithdai gydag athletwr Paralympaidd sydd wedi eu hanelu i ysbrydoli ac ymgysylltu gyda phob un sy'n cymryd rhan i wneud y gorau o unrhyw sefyllfa er mwyn gwella eu bywyd. Yn ystod y flwyddyn daeth Carchar EM y Parc y carchar cyntaf yn y DU i ddod yn Ganolfan Allgymorth ar gyfer Arweinwyr Chwaraeon yn y DU.

- ***Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo gwaith yr Adran Addysg Gorfforol, ei drefniadaeth, ei gadw cofnodion a chyfathrebu. Mae hefyd yn cymeradwyo ei ymroddiad i barhau cyflwyno partneriaethau prosiect sy'n galluogi addysgu, ailsefydlu a datblygiad pob carcharor drwy chwaraeon ac addysg gorfforol.***

### **5.3 Dysgu a Sgiliau (Diwydiannau)**

Mae Adran Diwydiannau'r Carchar yn rhan o'r adran Dysgu a Sgiliau sy'n defnyddio ethos y broses cynhyrchu i gael cymwysterau NVQ a chymwysterau City and Guild. Gwneir y contractau oddi fewn i'r carchar a drwy gael contractau o'r tu allan.

Y targed yw cael 26 awr o weithgaredd defnyddiol ar sail amser llawn gyda tua 265 o leoedd a 211 o leoedd rhan amser. Fodd bynnag wrth gymharu'r nifer o leoedd o weithgaredd gyda phoblogaeth y carchar o fwy na 1400 mae'r ffigur isel iawn.

Unwaith eto pwysleisiwn mae Carchar Categori B yw'r Carchar hwn ac nid oes ganddo adnoddau digonol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

- ***Fodd bynnag mae'r Bwrdd yn llongyfarch y carchar ar ei ymdrechion yn hyfforddi carcharorion i'w galluogi i gael cymwysterau tra yn y carchar.***

Mae'r Adran Arddwriaethol yn mynd o nerth i nerth gyda thwnnel polythen newydd ac adeilad newydd ar gyfer swyddfa/gwaith cyffredinol yn cael ei adeiladu gan y carcharorion.

- ***Mae'r Bwrdd yn llongyfarch yr Adran Arddwriaethol ar yr arddangosfeydd gwych o flodau a welir yn y Carchar.***

Mae'r Adran Hwsmonaeth Anifeiliaid yn gweithio 365 diwrnod y flwyddyn yn gofalu am yr anifeiliaid, yn adeiladu cysgodfeydd ac yn rhoi pwrpas mewn bywyd i garcharorion.



## 5.4 Gofal Iechyd

Mae gofal iechyd yn cael ei gynnig yn fewnol gan Wasanaethau Integredig G4S.

Mae'r meinciau yn yr stafell aros Gofal Iechyd nawr wedi eu bolltio i'r llawr a dydyn nhw ddim bellach yn achosi risg/perygl posibl.

Bellach nid oes ciwiau yn yr ystafell aros am methadon gan fod y peiriannau dosbarthu wedi eu symud a'u lleoli yn yr adain.

Mae'r mwyafrif o'r ceisiadau a dderbynnir gan yr IMB yn ymwneud â meddygon a deintyddion. Mae'r carcharorion yn mynnu nad ydynt bob amser yn cael eu hysbysu am apwyntiadau ac mae hyn yn achosi anhawster i'r Bwrdd.

Apwyntiwyd staff nyrsio newydd a chawsant eu hyfforddi i weithio mewn amgylchedd carchar, ble mae'n angenrheidiol. Mae llawer iawn mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol nag yn y gorffennol.

Apwyntiwyd deintydd newydd sy'n golygu fod dau ddeintydd mewn swydd a dylai hynny ostwng y dagfa o apwyntiadau.

- ***Rhaid gosod gwell dulliau cyfathrebu i hysbysu carcharorion am apwyntiadau meddygol a deintyddol***

Darparwyd Diwrnod Hybu Iechyd Staff, a fynychwyd gan dros 200 o staff, gan Asiantaethau Allanol ynghyd ag Adrannau Addysg Corfforol, Cyffuriau ac Alcohol, a Gofal Iechyd.

## 5.5 Uned Gofal a Gwahanu (CSU)

Defnyddir yr uned i ddal carcharorion a symudwyd o'u lleoliad arferol oherwydd eu diffyg disgyblaeth, neu dan rai amgylchiadau er eu lles eu hunain.

Mae'r Uned yn cynnwys 24 cell, 21 i wahanu, 2 gell arbennig, ac 1 cell heb ddodrefn. Mae gan rai celloedd gamera sy'n eu gwyllo am 24 awr y dydd.

Mae byrddau arolwg gwahanu yn digwydd deirgwaith yr wythnos. Bu i'r Bwrdd fod yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r adolygiadau 72 awr, a phob un o'r adolygiadau 14 diwrnod yn ystod y cyfnod riportio.

Mae'r Bwrdd yn parhau i farnu fod yr adolygiadau wedi'u cynnal mewn dull teg a chywir – er, weithiau'n dechrau'n hwyr!

Mae'r prosiect Jig-So yn gyfredol, ac wedi ei atodi gan becynnau addysg mewn cell sy'n cynnig deunydd addysgiadol i wella sgiliau rhifedd a llythrennedd (sgiliau sylfaenol darllen a chyfri) y carcharor.

Gall y carchar ddal cyfanswm o 1,600 o ddynion ac Oedolion Ifanc, ac mae'r Uned Gofal a Gwahanu wedi darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r rheolwyr i ddarparu amgylchedd warchodol gadarnhaol.

- ***Ystyria'r Bwrdd fod yr Uned Gofal a Gwahanu yn cael ei rheoli'n dda, gyda staff sydd wedi eu hysgogi'n dda iawn, ac yn ymddangosiadol â'u bryd ar gynnig dull positif, cynorthwyo a ble mae angen dull disgybledig at les carcharorion, ynghyd â rhyngweithio da rhwng staff a charcharor.***

Bydd y CSU yn cael ei ail enwi yn y dyfodol yn: Uned Integreiddio, Cynorthwyo ac Ail Ymgysylltu.

## 5.6 Uned Pobl Ifanc (YPU)

Uned 64 gwely yw'r Uned Bobl Ifanc, yn gyfrifol am letya rhai 15-17 mlwydd oed. Mae dwy uned ar gyfer y bobl ifanc. Mae'r Bwrdd yn monitro'r uned yn wythnosol. Mae gan yr uned staff dynodedig, wedi'u hyfforddi a'u paratoi ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc a'u anghenion tra maent yn y carchar.

- ***Gall y Bwrdd riportio fod yr uned hon yn cael ei chynnal yn dda a bod lles y bobl ifanc yn cael ei roi gyntaf. Caiff ei monitro'n agos ac ymwelir â hi yn aml.***

Yn ddiweddar cafodd ei bwysleisio fod rhai o'r bobl ifanc ddim fel petaent yn deall rôl y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB), a hynny'n bennaf oherwydd amserau ymweliadau aelodau o'r bwrdd pan oedd pobl ifanc yn cael eu haddysg. Cymerwyd gwahanol gamau i ddelio â hyn, gyda gweithdai ac ymgyrch poster. Gobeithio bydd y Bwrdd yn gallu parhau i wneud hyn.

- ***Cydnabuwyd llawer o arfer da gan y Bwrdd ac mae llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi digwydd oddi fewn i'r uned.***

Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys: Cwrs wythnosol o Lythrennedd Ffilm ble mae pobl ifanc yn gwyllo a chynhyrchu ffilmau; a chyfres o weithdai (wedi eu cynorthwyo gan brosiect ymchwil) yn asesu manteision cymryd rhan mewn cerddoriaeth i bobl ifanc yn y ddalfa. Mae cynlluniau Gwobrwyon Llwyddiant Ieuenctid yn parhau ac yn gweithio'n dda. Dechreuwyd cwrs Dug Caeredin arall.

Mae'r gwahanol brosiectau a weir yn gyfredol (gan gynnwys un ar gyfer Adran Amgylcheddol Cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr) neu sy'n arfaethedig, yn profi'n llesol iawn i ddatblygiad y bobl ifanc, yn ogystal â darparu sgiliau iddynt fyw bywyd di-drosedd ar ôl gadael carchar.

- ***Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn pryderu am wahanu pobl ifanc, gan eu bod yn cael eu rhoi y tu ôl i ddrysau eu hystafelloedd.***

Roedd 449 o achosion gwahanu o lonawr i Chwefror yn ystod y flwyddyn riportio gyfredol. Ceisiwn fonitro hyn ond nid ydym yn cael gwybod am hyn bob tro mae'n digwydd. Mae aelodau'r bwrdd yn arwyddo i ddweud eu bod wedi gweld y rhai sydd wedi'u gwahanu wedi iddynt wneud hynny.

- ***Rydym yn amlygu unwaith eto y diffyg adnoddau sydd ar gael i OI neu bobl ifanc sy'n agored i niwed.***

Mae'r carchar yn parhau i geisio mynd i'r afael â hyn ac rydym wedi sylwi ar driniaeth dda a gafodd y bobl ifanc hyn. Fodd bynnag nid oes darpariaeth iawn ar eu cyfer.

Mae staff yr uned yn gweithio'n dda tuag at helpu'r bobl ifanc hyn, ac y mae'r Bwrdd bob amser â diddordeb mawr yn yr uned

## **5.7 Gwarchodaeth Ddiogelach**

Mae aelodau o'r Bwrdd wedi mynychu'n rheolaidd y Cyfarfodydd Gwarchodaeth Ddiogelach misol; mynychir y cyfarfodydd hyn yn dda iawn gan y staff.

Bu dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn [nid â'u llaw eu hunain]. Mae'r ymchwiliadau i'r marwolaethau hyn yn dal i ddigwydd ac ni roddwyd dyddiad hyd yn hyn ar gyfer y cwestau. Dylid nodi, fodd bynnag, fod penodiad Crwner newydd eisoes wedi golygu gwelliant mewn amserlennu cwestau.

Bu cynnydd o 173 yn y ffigurau hunan niweidio o'i cymharu â'r cyfnod riportio diwethaf. Mae torri a chrafiadau yn dal i fod y ffyrdd mwyaf toreithiog o hunan niweidio. Nodir, fodd bynnag, mai mewn nifer o achosion rydym wedi dal nifer o rai sy'n niweidio eu hunain dro ar ôl tro. Mae'r Uned Gwarchodaeth Ddiogelach (SCU) yn darparu ardal ddiogel a chefnogol i garcharorion mewn argyfwng. Bwriad yr uned yw i ddarparu gofal a chymorth dwys i garcharorion sydd angen eu hail-leoli o'r uned breswyl fawr i leoliad sydd â chymorth mwy dwys. Mae nifer o ymyriadau ar gael yn yr uned hon gan gynnwys loga, Rhaglen Arhoswch a Meddylwch i garcharorion sydd â phroblemau wrth reoli eu emosiynau neu ymddygiad, Technegau Rhyddid Emosiynol, Myfyrio, Gweithdai Rheoli Dicter, Aciwbigo a Rheoli Straen.

Mae hwsmonaeth anifeiliaid (nawr gyda dau ferlyn ychwanegol) yn parhau i fod o les mawr, yn arbennig i garcharorion sy'n agored i niwed. Gofelir am y ddau gi PAT yn yr uned gan un o'r carcharorion, ac wrth ofalu am y cŵn fe wnaeth y sylw: "Mae'r cŵn hyn wedi newid fy mywyd yn llwyr gan i mi gael y gwaith o ofalu amdanynt ac rwyf wedi gwneud hynny am saith mis. Mae'r gwaith gyda'r cŵn a'r ymddiriedaeth a'r parch a dderbyniais gan y swyddogion a'r Rheolwyr wedi fy ngalluogi i gael rheolaeth lwyr ar fy mywyd." Mae gan garcharorion sy'n yr uned hefyd fynediad i'r Ganolfan Anifeiliaid ar gyfer therapi a gynorthwyr gan anifeiliaid, sef menter cymharol newydd a ddefnyddiwyd gan sefydliadau eraill yn y gorffennol.

### Ffigurau Hunan niweidio – Mawrth 2011 i Chwefror 2012

Maw11	Ebr11	Mai11	Meh11	Gorff11	Aws11	Medi11	Hyd11	Tach11	Rhag11	Ion12	Chwe12
70	62	54	45	36	32	38	39	54	41	53	56

Nifer yr ymosodiadau difrifol a wnaed drwy gydol y flwyddyn oedd 27; mae hyn yr un faint â'r flwyddyn flaenorol er y bu cynnydd yn nifer y carcharorion. Bu 63 o ymosodiadau ar staff yn ystod y cyfnod riportio.

### Ymosodiadau gan gynnwys Ymladd – Mawrth 2011 i Chwefror 2012

Maw11	Ebr11	Mai11	Meh11	Gorff11	Aws11	Medi11	Hyd11	Tach11	Rhag11	Ion12	Chwe12
44	36	38	48	40	36	42	16	35	40	31	28

Roedd nifer anghyfartal o ymosodiadau fesul carcharor yn Uned y Bobl Ifanc o'i gymharu â gweddill y carchar. Cefnogir yr Uned Pobl Ifanc gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Llais sy'n cynnig darpariaeth annibynnol i bobl ifanc ar bob mater gan gynnwys mynychu dyfarniadau pan wneir cais am hynny.

### Ymosodiadau gan gynnwys Ymladd Uned Pobl Ifanc – Mawrth 2011 i Chwefror 2012

Maw11	Ebr11	Mai11	Meh11	Gorff11	Aws11	Medi11	Hyd11	Tach11	Rhag11	Ion12	Chwe12
15	17	17	25	14	15	20	6	12	15	12	16

Mae'r Uned Pobl Hŷn yn cynnwys dwy uned o un ar bymtheg o gelloedd; mae'r holl gelloedd mewn un uned ac un cell yn yr uned arall ag offer ar gyfer cadair olwyn. Mae'r carcharorion yn yr unedau yma yn cael mynediad i ddsbarthiadau cadw'n heini, a chrefftau a gyflwynir yn y ddwy uned. Cafwyd trafodaethau gyda Chymorth Canser Macmillan am darpariaeth gofal lliniarol ar ddiwedd oes i garcharorion sydd ag afiechyd terfynol.

### **MEYSYDD ERAILL MAE'R BWRDD YN DYMUNO ADRODD ARNYNT**

#### **6.1 Arlwyo**

Mae'r lleihad yn y lwfans y pen, fesul diwrnod, wedi golygu cyfrannau llai a llai o amrywiaeth. Mae hyn, yn ei dro, wedi cynhyrchu cwynion mynych gan garcharorion.

#### **6.2 Caplaniaeth Aml Ffydd**

Mae'r tîm caplaniaeth aml ffydd yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth aml ffydd sydd mor gynhwysol â phosibl. Yn unigol mae'r caplaniaid yn cyflawni swyddogaeth hanfodol yng nghyfundrefn y carchar yn eu hargaeledd ac wrth beidio barnu bob amser i'r staff ac i garcharorion yn arbennig ar amser o drallod neu gollod yn y teulu.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y tîm Caplaniaeth gynnal: Cyrsiau Adfent a'r Grawys, cyflwyniad i Gristnogaeth, Cwrs Torbiyah I2I (addysgu Mwslimaidd), a chwrs Byw gyda Cholled. O ganlyniad i'r Gweithdy Ysgrifennu, mae'r tîm ar hyn o bryd yn y broses o gynhyrchu llyfr wedi'i ysgrifennu gan y carcharorion, yn mynegi eu profiadau o ffydd, yn arbennig yn ystod eu cyfnod yn y carchar.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y tîm hefyd hwyluso ymweliadau gan Billy Bragg (cerddor), sylfaenydd Guitar Indoor (oedd yn cynnwys treulio prynhawn gyda'r carcharorion, a rhodd o 6 gitâr ac offerynnau eraill i'w defnyddio gan y carcharorion); Simon Weston OBE wnaeth siarad yng Ngŵyl y Cofio (a fynychwyd gan dros 150 o garcharorion, ynghyd ag aelodau o'r Lleng Brydeinig leol). Croesawyd dau Awdur Cristnogol ac a siaradodd am eu llyfrau yng Ngŵyl y Gelli yn y Parc.

#### **6.3 Cwestau**

Mae'n dal i fod amser hir i'w ddisgwyl cyn y cynhelir cwest, ond nodir fod yna lawer llai heb eu cynnal nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol. Nodir, fodd bynnag, fod penodi Crwner newydd eisoes wedi golygu gwelliant wrth amserlennu cwestau.

#### **6.4 Eiddo**

Mae problemau eiddo yn dal i fod yn gyfran sylweddol o'r ceisiadau a anfonir i'r Bwrdd. O ganlyniad i gyfarwyddyd newydd gan y Gwasanaeth Carchardai, ni all carcharorion bellach dderbyn eiddo sy'n cael ei roi wrth ymweld ag eithrio i garcharorion newydd yn syth ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r carchar.

#### **6.5 Staff**

O ganlyniad i ddarbodion diweddar, bu nifer fach o golli swyddi staff sydd wedi golygu gostyngiad yn ysbryd y staff sy'n weddill.

#### **6.6 Ymweliadau**

Rhywbeth newydd o'i gymharu â charchardai eraill: mae'r Adran Ymweliadau bob amser wedi dod dan gylch gwaith Diogelwch. Yng Ngharchar EM y Parc penderfynwyd y dylai Ymweliadau ddod dan gylch gwaith Cefnogi Teuluoedd y Parc.

Carchar EM y Parc sydd â'r Uned Ymyriadau Teuluoedd wedi'i adeiladu'n bwrpasol cyntaf yn Ystad y Carchardai. Mae nawr wedi'i sefydlu'n gadarn, ac yn bodoli ar gyfer carcharorion sy'n benderfynol o ddiwygio eu hagwedd tuag at fywyd, cael sgiliau ar gyfer byw y tu allan, ac yn anad dim i ddal eu cysylltiadau â'u teuluoedd. Fe'i seiliwyd ar y cynsail fod plant angen tad sy'n fodlon cysylltu â hwy, eu helpu i dyfu i fyny, i'w caru, ac a fydd yn eu hannog i gael addysg dda. Yn y ffordd hon, gobeithir cyfrannu at ostwng y ratio arswydus o 6 allan o 10 plentyn, sy'n gweld eu tad yn mynd i'r carchar, yn mynd i'r carchar eu hunain. Felly, fe sefydlwyd clwb gwaith cartref i helpu plant i greu cwlwm agosrwydd gyda'u tadau.

## **6.7 Gorsaf Radio'r Carchar**

Roedd cynlluniau ar y gweill yn ystod y sesiwn riportio cyfredol ar gyfer agor gorsaf radio fechan, yn cael ei gweithredu gan y carcharorion a gyda rhaglenni yn cael eu cyflwyno ganddynt, i'w darlledu yn y carchar.

### **Adran 7**

---

## **GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL**

### **7.1 Dyletswyddau statudol, cyffredinol a phenodol**

Mae dyletswyddau'r Bwrdd yn cynnwys cyfarfod â charcharorion a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu bryderon ar eu rhan. Yn ogystal golyga fonitro pob agwedd o fywyd carchar gan sicrhau tegwch a pharch i'r rhai sy'n y ddalfa.

Mae gan y Bwrdd gyflenwad llawn o 20 ond bu'n gweithio fel Bwrdd o 17; felly mae recriwtio ar y gweill i benodi cyflenwad llawn o aelodau.

Mae pedwar aelod o'r Bwrdd ar ddyletswydd bob wythnos, yn siarad â charcharorion, yn monitro ac yn mynychu cyfarfodydd e.e. Gwarchodaeth Ddiogelach, Cyfarfodydd Amrywiaeth.

Disgwylir i bob aelod o'r Bwrdd i fynychu 75% o'r holl gyfarfodydd Bwrdd misol.

### **7.2 Ymweliadau Rota**

#### **Ymweliadau Rota ac Adolygiad Gwahanu 2011 - 2012**

	<b>Maw</b>	<b>Ebr</b>	<b>Mai</b>	<b>Meh</b>	<b>Gor</b>	<b>Aws</b>	<b>Medi</b>	<b>Hyd</b>	<b>Tach</b>	<b>Rhag</b>	<b>Ion</b>	<b>Chw</b>	<b>Cyf</b>
<b>Ymweliadau Rota</b>	42	47	46	36	43	47	44	36	43	39	47	46	516
<b>Adolygiadau 14 - Diwrnod</b>	2	2	2	3	2	2	2	2	2	3	2	2	26

### **7.3 Hyfforddiant**

Mae'r tri aelod newydd a benodwyd y llynedd wedi'u gollwng erbyn hyn, ac maent yn aelodau gweithredol llawn o'r Bwrdd gyda chyfrifoldebau unigol penodol. Mae recriwtio pellach yn digwydd ar hyn o bryd am fod Carchar EM y Parc ar fin ehangu i 200+ o leoedd ychwanegol.

Mae hyfforddiant cyn cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau gyda slot hanner awr ar gael i Reolwyr i roi diweddariad i'r holl aelodau ar fentrau newydd neu hyfforddiant cyfredol.

Cynhaliwyd y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yn Hyfforddi Blynyddol yn Nhachwedd 2011 a phenderfynwyd canolbwyntio ar fonitro hanner cyntaf 2012.

Derbyniwyd ymweliadau gan Fyrddau eraill o Garchardai EM ym Mirningham, Caerdydd, Dartmoor a Guys Marsh.

Fe wnaeth dau aelod cymharol newydd fynychu Cynhadledd yr IMB yn Swydd Gaerlŷr a chofrestrodd un aelod i fynychu'r Cwrs Datblygiad Parhaus nesaf.

### **7.4 Cyfarfodydd Mewnol ac Allanol**

Mae aelodau o'r Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd gan gynnwys Gwarchodaeth Ddiogelach, Diogelu ac Amrywiaeth. Mae'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd yr Ystadau a Gontractiwyd yn Llundain yn rheolaidd, a hefyd Gyfarfodydd Cadeiryddion Cymru. Mae un fu'n aelod ers amser ar Banel Cyfwelwyr Annibynnol yr IMB.

## **7.5 Ceisiadau a Chrynodeb o'r Ceisiadau**

Derbyniodd y Bwrdd 753 o geisiadau yn ystod y cyfnod adrodd, dros 100 yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

### **Crynodeb o'r Ceisiadau i'r Bwrdd**

Iechyd	200
Eiddo	156
Amrywiol	107
Teulu / Ymweliadau	98
Staff / Carcharorion	57
Cyfundrefnau	41
Perthnasol i'r ddedfryd	38
Bwyd	23
Llety	19
Amrywiaeth	9
Dyfarniadau / Gwahanu	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>753</b>

Mae cyswllt agos â'r Clerc Cwynion yn sicrhau nad oes dyblygu problemau sy'n achosi i'r un cais/cwyn gael sylw gan y Carchar a'r Bwrdd ar yr un pryd.

## **7.6 Geirfa Byrfoddau**

**ACCT** Asesiadau, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm  
**BME** Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig  
**CAMHS** Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed  
**CSP** Cynlluniau Cymorth Cymunedol  
**EU** Yr Undeb Ewropeaidd  
**FNP** Carcharor sy'n Wladolyn Tramor  
**GOOD** Trefn neu Ddisgyblaeth Dda - Gwahanu dan Reol 45/49  
**HDC** Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref  
**HMP & YOI** Carchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwr Ifanc  
**IEP** Cymhellion, a Breintiau a Enillwyd  
**IND** Cyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd  
**IMB** Bwrdd Monitro Annibynnol  
**NOMS** Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr  
**PACT** Ymddiriedolaeth Gofal a Chyngor Carchardai  
**POPS** Partneriaid Carcharorion a Grŵp Cefnogi Teuluoedd  
**PSF** Parc yn Cefnogi Teuluoedd  
**POI** Er Lles y Carcharor – Gwahanu dan Reol 45/49  
**ROTL** Rhyddhau ar Drwydded Dros dro  
**SMARG** Grŵp Monitro ac Adolygu Gwahanu  
**WAG** Llywodraeth Cynulliad Cymru  
**YJB** Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid  
**YO** Troseddwr Ifanc  
**YP** Pobl Ifanc  
**YPU** Uned Pobl Ifanc